*These notes refer to the Deddf Yr Undebau Llafur (Cymru) 2017 (c.4)*

# DEDDF YR UNDEBAU LLAFUR (CYMRU) 2017

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

***Adran 2 – Gwaharddiad ar ddefnyddio gweithwyr dros dro i gymryd lle staff yn ystod gweithredu diwydiannol***

24. Mae adran 2 yn gwahardd awdurdodau cyhoeddus datganoledig Cymreig rhag cyflogi gweithiwr a gyflenwir gan fusnes cyflogaeth (a elwir yn gyffredin yn "weithwyr asiantaeth") i gyflawni dyletswyddau arferol aelod o'i staff sy'n cymryd rhan mewn gweithredu diwydiannol, neu aelod o staff sy'n cyflawni dyletswyddau'r gweithiwr sy'n cymryd rhan mewn gweithredu diwydiannol.

25. Rhaid i'r gweithredu diwydiannol dan sylw fod yn "swyddogol" – sef cysyniad a ddiffinnir drwy gyfeirio at adran 237 o Ddeddf 1992.

26. Nid yw'r ddarpariaeth hon yn effeithio ar y gyfraith bresennol o ran ymddygiad busnesau cyflogaeth a nodir yn Neddf Asiantaethau Cyflogi 1973 neu Reoliadau Ymddygiad Asiantaethau Cyflogi a Busnesau Cyflogaeth 2003 (O.S. 2003/3319) a wnaed o dan adran 5 o'r Ddeddf honno. (Mae Rheoliad 7 o Reoliadau 2003 yn gwahardd busnesau cyflogaeth rhag cyflenwi gweithwyr yn lle staff sy'n cymryd rhan mewn gweithredu diwydiannol).